# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 20FED MEDI, 2018**

**NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.00YB**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 12 Medi 2018)

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Aled Ll. Evans
Judith Mary Humphreys
Olaf Cai Larsen
Paul John Rowlinson
Steve Collings
E. Selwyn Griffiths
Huw Gruffydd Wyn Jones
Mair Rowlands
Cemlyn Rees Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Freya Hannah Bentham
Keith Jones
Elfed Powell Roberts
Elwyn Jones
Beth Lawton

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd
Gareth Williams

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Dewi Owen

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

### Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

| | |
|---|---|
| Anest Gray Frazer | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Rita Price | The Catholic Church |
| Dylan Davies | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionnydd |
| Karen Vaughan Jones | Cynrychiolydd Rhieni/Athrawon Dwyfor |
| [sedd wag] | Cynrychiolydd Rhieni/Athrawon Arfon |

### Heb Bleidlais:

| | |
|---|---|
| Dilwyn Elis Hughes | UCAC |
| David Healey | Undebau Athrawon (ATL) |

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 6 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2018 fel rhai cywir (ynghlwm).

**5. GWEITHGAREDD CYNGOR GWYNEDD YNG NGHYSWLLT BREXIT** 9 - 11

Ystyried adroddiad yr Arweinydd a’r Aelod Cabinet Datblygu’r Economi (ynghlwm).

*10.35yb – 11.35yb

**6. ADRODDIAD AR GANLYNIADAU'R HAF 2018** 12 - 19

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg  (ynghlwm).

*11-35yb – 12.35yp

**7. YMCHWILIAD CRAFFU I EFFAITH DATBLYGIADAU ADEILADAU YSGOLION NEWYDD AR ANSAWDD ADDYSG** 20 - 24

Ystyried adroddiad y Swyddog Cefnogi Busnes y Cyngor (Swyddog arweiniol yr ymchwiliad - ynghlwm).

*12.35yp

*amcangyfrif o’r amseroedd

Dilynir y cyfarfod gan sesiwn anffurfiol ar gyfer yr aelodau am 1.30yp.

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 21.06.18

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Menna Baines, Freya Bentham, Steve Collings, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elwyn Jones, Huw G.Wyn Jones, Cai Larsen, Dewi Owen, Elfed Roberts, Paul Rowlinson a Gareth Williams.

**Aelod Cyfetholedig**: Rita Price (Yr Eglwys Gatholig).

**Swyddogion yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7 isod:**
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor)
Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol)
Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid)
Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Beth Lawton yn Gadeirydd y pwyllgor hwn am 2018/19.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Paul Rowlinson yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2018/19.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr Aled Evans, Keith Jones, Mair Rowlands a Cemlyn Williams; Anest Gray Frazer (yr Eglwys yng Nghymru) a David Healey (Undebau Athrawon).

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5 MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Ebrill, 2018, fel rhai cywir.

**7. CAIS CYNLLUN TWF AR GYFER GOGLEDD CYMRU – DIWEDDARIAD CYNNYDD**

Cyflwynwyd – adroddiad Arweinydd y Cyngor yn cyflwyno diweddariad ar y Cynllun Twf i Ogledd Cymru, ynghyd â gwybodaeth am y trefniadau llywodraethu arfaethedig.

Gwahoddwyd sylwadau a barn y pwyllgor ar y Cytundeb Llywodraethu.

Ymhelaethodd yr Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynhodd y Cadeirydd brif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

'Roedd aelodau'r pwyllgor yn ddiolchgar o dderbyn diweddariad gan yr Arweinydd i'r trefniadau TwF Economaidd Gogledd Cymru. Mae aelodau'r pwyllgor wedi dangos cefnogaeth i gyfeiriad y cynllun o'r dechrau, ac yn parhau i fod yn gefnogol. Mae'r prif negeseuon heddiw fodd bynnag, yn canolbwyntio fwy ar y risgiau sydd angen eu hystyried wrth i'r cynllun ddatblygu.

<u>RISGIAU ARIANNOL</u>

Yn sgil yr adroddiad a'r trafodaethau heddiw, bu i'r aelodau adnabod fod potensial o risgiau a goblygiadau ariannol i'r Cyngor yn sgil y cynllun. Mae angen sicrwydd:-

- Fod y buddion o'r cynllun yn gorbwyso y risgiau ariannol.
- Fod holl aelodau Gwynedd yn fodlon fod pob cam posib yn cael ei gymeryd i leihau'r risgiau ariannol.
- Fod y cynllun busnes a'r cynlluniau prosiect yn wydn, ac yn cael eu rheoli yn gadarn – hynny er mwyn lleihau'r risgiau fod partneriaid yn tynnu allan o brosiectau a'r risg ariannol wedyn yn disgyn i'r awdurdod.
- Fod angen i'r aelodau fod yn gallu craffu'r cynlluniau yn aml i sicrhau fod risgiau busnes (ariannol a chyflawni) yn cael eu rheoli.

<u>RISGIAU LLYWODRAETHU</u>

Eto, yn deillio o'r wybodaeth i law a'r trafodaethau heddiw, nodwyd y negeseuon a'r risgiau isod ynghylch y trefniadau llywodraethu arfaethedig:-

- Mae cefnogaeth i graffu'r cynllun TwF fesul awdurdod.
- Nodwyd pryder am ddirprwyo hawliau i'r Arweinydd, gan dderbyn ar yr un pryd ei fod yn angenrheidiol. Fodd bynnag, rhaid sicrhau fod yr Arweinydd yn bwydo gwybodaeth yn gyson i Aelodau Gwynedd ac yn atebol i'r aelodau am gyfeiriad y cynllun, cynnydd ar brosiectau ac am risgiau'n cael eu rheoli.

<u>RISGIAU ERAILL</u>

Nodwyd hefyd rhai risgiau eraill y dylid eu hystyried:-

- Risgiau gwleidyddol, megis newid cyfeiriad o du Llywodraeth Cymru, a'i bod yn hanfodol bod yn effro i hyn.
- Parhau i nodi'r risg gwleidyddol o gydweithio ar draws awdurdodau Gogledd Cymru.

Fodd bynnag, yn allweddol, nodwyd mai un o'r prif risgiau fyddai peidio gweithio'n Rhanbarthol. Trwy gyd-weithio'n Rhanbarthol gall Cyngor Gwynedd sicrhau llais cryf i fynnu fod materion a datblygiadau yn dod yn sgil y cynllun i Wynedd gyfan. Nodwyd hefyd gais i roi sylw i ystyried y buddion a'r goblygiadau o Wynedd yn awdurdod lletyol ar gyfer y Cynllun.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00yb a daeth i ben am 11.25yb.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod: | Pwyllgor Craffu Addysg a'r Economi |
| Dyddiad: | 20 Medi 2018 |
| Teitl: | **Gweithgaredd Cyngor Gwynedd yng nghyswllt Brexit** |
| Awdur: | Dylan Griffiths<br>Rheolwr Rhaglenni Datblygu Economaidd<br>Adran Economi a Chymuned |
| Aelod: | Cynghorydd Dyfrig Siencyn<br>Arweinydd y Cyngor (Aelod arweiniol Brexit)<br>Cynghorydd Ioan Thomas<br>Aelod Cabinet dros Ddatblygu'r Economi |

1. Cyflwyniad

1.1. Cyflwynir yr adroddiad hwn ar gais y Pwyllgor Craffu i amlinellu gweithgaredd y Cyngor mewn ymateb i benderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd (Brexit).

1.2. Bydd cyflwyniad a cyfle i drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 20 Medi. Darperir yr isod i grynhoi'r sefyllfa bresennol ac i amlinellu gwaith y Cyngor yng nghyswllt Brexit hyd yn hyn.

2. Cefndir

2.1. Ar 23 Mehefin 2016 pleidleisiodd 51.9% o etholwyr y DU o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd (roedd 58.1% o etholwyr Gwynedd o blaid aros yn yr Undeb).

2.2. Ar 29 Mawrth 2017 hysbysodd Llywodraeth San Steffan yr Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol o fwriad y DU i adael yr Undeb, gan gychwyn y drefn a nodir yn Erthygl 50 Cytuniad Lisbon. Bydd y DU yn gadael yr Undeb ar 29 Mawrth 2019.

2.3. Mae trafodaethau rhwng Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd sy'n anelu i ddod i gytundeb ynglŷn â'r trefniadau wedi i'r DU adael yr Undeb yn parhau. Os bydd cytundeb, bwriedir cael cyfnod pontio / cyflawni o hyd at ddwy flynedd wedi i'r DU adael yr Undeb yn ffurfiol i sefydlu a sefydlogi'r trefniadau newydd.

2.4. Os na fydd cytundeb, o ran masnach, bydd perthynas y DU â'r Undeb Ewropeaidd wedi Brexit yn cael ei arwain gan reolau Sefydliad Masnach y Byd.

2.5. Yn gyfochrog, mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 wedi ei gytuno gan San Steffan. Yn ei hanfod mae'r Ddeddf yn diddymu Deddf

y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac yn trosglwyddo'r holl ddeddfwriaeth Ewropeaidd i ddeddfwriaeth y DU wedi Brexit.

3. Paratoi ar gyfer Brexit

3.1. Mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo ar lefel Ewropeaidd, Prydeinig a Cymru i geisio rhagweld beth fydd effaith Brexit ac i baratoi gan gynnwys ystyriaeth o beth fyddai'r oblygiadau petai ddim cytundeb rhwng y DU a'r UE (y senario 'No Deal').

3.2. Mae gwaith y Llywodraeth Cymru yn cael ei arwain gan y Prif Weinidog gyda chefnogaeth 'Grŵp Cynghori ar Ewrop' sy'n cynnwys cynrychiolwyr o ystod o feysydd. Mae 'Grŵp Bord Gron' penodol (ynghyd â nifer o is-grwpiau) hefyd wedi ei sefydlu gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i randdeiliaid ar draws ei phortffolio drafod goblygiadau Brexit.

3.3. O ran llywodraeth leol, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol Brydeinig hefyd yn weithgar. Mae CLlLC yn aelod o 'Grŵp Cynghori Ewrop' Llywodraeth Cymru ac o 'Grŵp Bord Gron' Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig a nifer o'i is-grwpiau. Mae'r Gymdeithas hefyd yn weithgar ym Mrwsel, Llundain a Caerdydd i sicrhau bod llywodraeth leol yn cadw ei llais yn y trafodaethau.

3.4. Yn ddiweddar, mae CLlLC wedi sicrhau arian ar gyfer sefydlu 'Rhaglen Cefnogi Trosglwyddiad Brexit ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru'. Bydd gweithgareddau dan y rhaglen gefnogi yn cynnwys trefnu digwyddiadau (cenedlaethol a rhanbarthol), cynhyrchu pecynnau ac adnoddau eraill a chomisiynu ymchwil ar faterion lle bydd Brexit yn effeithio yn sylweddol ar lywodraeth leol.

4. Gweithgaredd Cyngor Gwynedd yng nghyswllt Brexit

4.1. Gyda'r DU wedi bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd ers dros ddeugain mlynedd, mae polisïau, rheoliadau a deddfwriaeth Ewrop wedi eu hintegreiddio'n eang i fywydau trigolion a sefydliadau Gwynedd, o warchod yr amgylchedd i hawliau dynol ac o'r economi i safonau masnach.

4.2. Ers y penderfyniad, mae'r Cyngor wedi bod yn cadw trosolwg ar ddatblygiadau yng nghyswllt Brexit ynghyd â bachu ar bob cyfle i ddylanwadu o blaid anghenion trigolion a busnesau Gwynedd, ac i godi ymwybyddiaeth o amgylchiadau ac anghenion arbennig y sir. I'r perwyl, sefydlwyd grŵp anffurfiol sy'n cwrdd yn ôl yr angen; mae'r grŵp yn cynnwys Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu'r Economi ac Uwch Swyddogion.

4.3. O ran dylanwadu a lobio, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda CLlLC. Mae'r Cyngor yn darparu gwybodaeth a barn Cyngor Gwynedd i'r Gymdeithas yn ysgrifenedig a drwy law cyfarfodydd a digwyddiadau, sydd, yn ei dro, yn cael ei fwydo i mewn i'w drafodaethau. Yn hyn o beth, mae rôl Arweinydd y Cyngor o fod yn Gyd-lefarydd y Gymdeithas ar Faterion Cefn Gwlad yn allweddol.

4.4. Mae'r Cyngor hefyd yn manteisio ar bob cyfle i ddylanwadu yn uniongyrchol drwy ymateb i ymgynghoriadau a cheisiadau am dystiolaeth ayyb; gan gynnwys, ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ddyfodol amaeth ac ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddyfodol buddsoddiad i ddatblygu'r economi wedi Brexit.

4.5. Wrth i'r Brexit agosáu, mae rhai anghenion ymarferol yn dod i'r amlwg a thrafod o fewn meysydd gwaith penodol yn cychwyn, eto gan weithio'n bennaf gyda'r CLlLC. Mae'r Adran Cefnogaeth Corfforaethol eisoes yn ymchwilio i'r nifer o ddinasyddion o wledydd eraill y UE sy'n gyflogedig gan y Cyngor ac mae digwyddiadau penodol ar gyfer meysydd y gweithlu, yr amgylchedd a gwarchod y cyhoedd wedi eu trefnu gan y CLlLC i ddwyn swyddogion perthnasol ynghyd.

4.6. O ran ceisio lleihau a lliniaru ardrawiad Brexit ar fusnesau Gwynedd a'r economi lleol, rydym yn parhau i fod yn bartner egnïol o fewn Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Bydd gweithredu'r rhaglenni'r Bwrdd i gyflawni twf cynhwysol i ddatblygu'r economi yn allweddol bwysig yng nghefnogi busnesau i oresgyn effeithiau gadael y farchnad sengl.

5. <u>Casgliadau</u>

5.1. Mae'n annhebygol y bydd sicrwydd a fydd cytundeb rhwng Llywodraeth y DU a'r UE - a beth fydd natur unrhyw gytundeb - cyn diwedd y flwyddyn; ac, er gwaetha'r holl drafod a damcaniaethu, ni fydd gwir effaith ac oblygiadau Brexit yn hysbys am gryn amser.

5.2. Yn hyn o beth, rhaid cydnabod y cyfyngiadau ar ddylanwad y Cyngor a'n gallu i baratoi ac mai drwy gyfrannu'n gadarnhaol i fforymau CLlLC a Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru bydd y cyfle i Gyngor Gwynedd gael y dylanwad mwyaf. Fodd bynnag, o ystyried arwyddocâd Brexit, byddwn yn ddiolchgar o'r cyfle i drafod a derbyn sylwadau Aelodau'r Pwyllgor Craffu.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Teitl yr Adroddiad** | Adroddiad ar ganlyniadau'r haf 2018 |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 20 Medi 2018 |
| **Swyddog Perthnasol** | Garem Jackson, Pennaeth Addysg |
| **Aelod Cabinet Perthnasol** | Cynghorydd Gareth Thomas |

**1. CYD-DESTUN**

***Data Cymharol***

Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn wahanol i'r hyn gyflwynwyd mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno newidiadau sylweddol i sut yr adroddir ar fesurau perfformiad. Yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyhoeddi asesiadau athrawon, bellach nid oes cyhoeddi data cymharol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn yr ysgol, lefel yr awdurdod lleol na chonsortia. Felly y tu hwnt i gymhariaeth â chyfartaleddau cenedlaethol, nid oes unrhyw wybodaeth gymharol na meincnodol ar gael.

***Newidiadau i Feysydd Dysgu y Cyfnod Sylfaen***

Ym mis Hydref 2014, cafodd Meysydd Dysgu y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu a Datblygiad Mathemategol eu diwygio fel eu bod wedi'u halinio â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (y FfLlRh) ac fel eu bod nhw'n gofyn llawer mwy. Yn unol â hyn, cafodd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen eu haddasu er mwyn eu halinio â disgwyliadau uwch y Meysydd Dysgu diwygiedig.

Cafodd y Meysydd Dysgu diwygiedig eu cyflwyno ar sail statudol o fis Medi 2015 ymlaen. Golyga hyn mai'r cohort o blant a ddechreuodd yn y Derbyn ym mis Medi 2015 fydd yr un cyntaf i gael ei asesu'n ffurfiol yn erbyn y deilliannau ar eu newydd wedd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn haf 2018. Felly, dylai cymariaethau o ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen gyda blynyddoedd blaenorol gael eu hosgoi gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymharol.

***CA4 a CA5***

Pwysleisir mai gwybodaeth gychwynnol am ganlyniadau CA4 sy'n cael ei rannu ac nad oes mynediad, hyd yma, at ddata cymharol a meincnodol. Bwriedir diweddaru'r isod pan ddaw'r wybodaeth gyflawn i law.

Mae angen gofal felly wrth ystyried y wybodaeth gan na fydd y dadansoddiadau na'r cymariaethau yn cael eu cwblhau ar lefel genedlaethol tan tua throad y flwyddyn. Caiff gwybodaeth am berfformiad CA5 ei gynnwys pan fydd data cymharol a gwerth ychwanegol wedi cael ei ryddhau.

## 2. SAFONAU

### CYNRADD

### CYFNOD SYLFAEN

**Tabl 1**

Canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS)

| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | **86.8%** | **86.8%** | **86.6%** | **81.7%** |
| Cymru | 86.8% | 87.0% | 87.3% | 82.6% |

* Dylai cymariaethau o ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen gyda blynyddoedd blaenorol gael eu hosgoi gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymharol.

Mae canlyniadau yn y Cyfnod Sylfaen eleni yn dangos gostyngiad cenedlaethol o'r blynyddoedd blaenorol, y prif reswm am hyn yw'r defnydd am y tro cyntaf o ddeilliannau newydd mewn iaith a mathemateg o'r Fframwaith CS ar gyfer asesu. Mae llawer o athrawon dan yr argraff bod disgwyliadau uwch i gyrraedd Deilliant ac mae hyn yn un ffactor sydd wedi arwain felly at lai o ddisgyblion yn cyrraedd Deilliant 5.

Mae'r gostyngiad cenedlaethol yma yn y canlyniadau yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau Gwynedd. Mae GwE wedi rhagdybio hyn ac wedi canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn fydd yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer cyrraedd deilliannau uwch erbyn i'r disgyblion gyrraedd diwedd y Cyfnod Allweddol.

Mae'r adroddiad gomisiynwyd gan Gwynedd ar ganlyniadau CS 2017 yn adnabod y rhesymau tebygol dros ganlyniadau Deilliant 5+ ychydig is na'r disgwyl yng Ngwynedd. Un o'r prif resymau am hyn, sy'n dangos cryfder Polisi Iaith Gwynedd, yw'r ffaith bod nifer o ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn cael eu hasesu drwy'r Gymraeg ym Mlwyddyn 2; adlewyrchir hyn i raddau drwy'r asesiad Iaith Cymraeg eleni ble mae canlyniad Gwynedd ychydig is na'r ganran genedlaethol.

Mae'r adroddiad gomisiynwyd yn adnabod sawl rheswm arall all gyfrannu at ganlyniadau is, ac mae GwE a'r Adran Addysg wedi llunio cynllun gweithredu fel atodiad i'r cynllun busnes 2018-19 sydd yn ymateb i'r darganfyddiadau yma.

Mae canlyniadau y Deilliannau uwch 6+ Gwynedd yn parhau i fod yn gymharol dda. Felly er bod disgwyliadau uwch eleni i gyrraedd y Deilliant yma, mae'r ysgolion wedi codi'r lefel o her i gwrdd â'r gofynion newydd.

Y newyddion da felly yw bod mwy o ddisgyblion Gwynedd na'n genedlaethol yn cyrraedd Deilliant 6 os ydynt wedi cyrraedd y Deilliant disgwyliedig yn y lle cyntaf. Mae arweiniad gan GwE i athrawon CS ar sut i dargedu disgyblion ffiniol D5/6 wedi cyfrannu at sicrhau'r canlyniad yma.

Mae’r gwahaniaeth perfformiad rhwng y bechgyn a’r merched wedi aros yn gyson yn y Cyfnod Sylfaen dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae’r patrwm yna wedi parhau er y newid i’r gofynion asesu, gyda’r merched yn parhau i berfformio tua 6% yn uwch na’r bechgyn.

**CA2**
**Tabl 2**
Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni’r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd CA2

| DPC | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | **89.5%** | **89.8%** | **92.1%** | **91.2%** |
| Cymru | 87.7% | 88.6% | 89.5% | 89.5% |

Mae canlyniadau CA2 Gwynedd yn parhau yn gadarn dda. Mae’r perfformiad ym mhob pwnc ar gyfer y lefelau 4 disgwyliedig yn well na’r canlyniadau cenedlaethol. Mae’r perfformiad ar y lefelau uwch 5+ hefyd yn gadarn ac yn uwch na chanlyniadau Cymru ym mhob pwnc.

**Cryfderau a llwyddiannau**
- Canlyniadau cymharol Deilliannau Uwch Deilliant 6+ yn y Cyfnod Sylfaen
- Canlyniadau CA2 yn enwedig yn y lefelau uwch.

**Meysydd i'w Gwella**
- Gweithredu argymhellion perthnasol adroddiad Cyfnod Sylfaen Gwynedd

**CA3**
Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni’r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd CA3

| DPC | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | **91.3%** | **92.0%** | **92.8%** | **92.8%** |
| Cymru | 83.9%% | 85.9% | 87.4% | 88.1% |

Mae perfformiad ar draws y prif ddangosyddion yn CA3 yn gadarn eto eleni. O ran y dangosydd pwnc craidd (DPC), mae perfformiad Gwynedd wedi aros yn gyson, ac mae’r perfformiad yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Bu gostyngiad yn y ganran o ddysgwyr PYD a enillodd y dangosydd DPC. Nid oes data cenedlaethol ar gael ar hyn o bryd.

***Cymraeg*** : perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig wedi gostwng ychydig eleni, ond yn parhau’n uwch na pherfformiad 2016. O ran cymhariaeth genedlaethol, mae perfformiad Gwynedd ychydig is ond rhaid cymryd i ystyriaeth maint y cohort lleol. Mae perfformiad un lefel yn uwch na’r lefel ddisgwyliedig wedi cynyddu dros dreigl tair blynedd, ac yn uwch na’r cyfartaledd genedlaethol.

***Saesneg*** : perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg wedi cynyddu dros dreigl tair blynedd ac eto eleni, ac yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol. Gwelir patrwm tebyg ar un lefel yn uwch na’r lefel ddisgwyliedig gyda chynnydd pellach eleni, ac yn sylweddol uwch na’r gymhariaeth genedlaethol.

***Mathemateg*** : perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg wedi cynyddu eto eleni a dros dreigl tair blynedd, ac yn uwch na'r cyfartaledd genedlaethol. Gwelwyd gostyngiad bychan ym mherfformiad Gwynedd ar un lefel yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig, ond yn parhau uwchlaw cyfartaledd Cymru.

***Gwyddoniaeth*** : gostyngiad bychan ar y lefel ddisgwyliedig ond yn parhau yn uchel, ac yn uwch na'r ganran genedlaethol. Mae perfformiad un lefel yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig hefyd wedi parhau yn uchel, ac yn sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol.

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Perfformiad Gwynedd yng nghyfnod allweddol 3 wedi parhau yn uchel , ac yn uwch ym mron pob un dangosydd o'i gymharu â'r perfformiad cenedlaethol

**Meysydd Gwella**

- Cynyddu perfformiad disgyblion PYD ar y lefelau disgwyliedig yn y pynciau craidd

**CA4**

**Gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer arholiadau 2018**

Yn dilyn y newidiadau yn 2016-17, mae anwadalrwydd sylweddol yn parhau i fod mewn perthynas â deilliannau TGAU. Mae'r newidiadau sylweddol i batrwm a nifer y disgyblion a safodd arholiadau yn ystod Haf 2018 wedi cael effaith ar ganlyniadau, fel y gwelir yn y ffaith bod cyfran y graddau A* i C ar draws yr holl bynciau yng Nghymru wedi gostwng 1.2yp i 61.6%.

Mae TGAU yn y broses o gael eu diwygio, ac fe gafodd 15 o bynciau diweddaredig eu sefyll am y tro cyntaf yn ystod yr haf hwn.

Cafodd y gyfres newydd o gymwysterau TGAU Gwyddoniaeth eu harchwilio am y tro cyntaf yn 2018, ac mae'n cyd-fynd â'r newidiadau i'r dangosyddion perfformiad yn CA4, i gynnwys un canlyniad TGAU yn unig ar gyfer Gwyddoniaeth, fel dau fesur yn y dangosydd 9 wedi'i gapio. O ganlyniad, nid yw cymharu gyda data hanesyddol yn berthnasol. Roedd ysgolion yn gallu dilyn trywydd y llwybrau canlynol: Gwyddoniaeth (Dyfarniad Triphlyg), Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl), Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl), a Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Sengl). Gan fod y dangosydd 9 wedi'i gapio yn cynnwys dau fesur Gwyddoniaeth, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dilyn y llwybrau dwbl a thriphlyg.

Mae newidiadau sylweddol wedi bod i ffiniau graddau ers Haf 2017 a mis Tachwedd 2017 o'u cymharu â Haf 2018, yn arbennig ar radd C mewn Saesneg a Mathemateg. Mae hyn wedi'i gwneud yn anodd i ysgolion sicrhau bod y rhagamcanion a'r targedau cywir yn cael eu gosod. Mae dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu bod data ysgolion Gwynedd wedi cael eu dylanwadu'n sylweddol gan benderfyniadau cofrestriadau.

Dylid ystyried perfformiad ysgol yn ôl trywydd ei pherfformiad ei hun, gan nad yw'n briodol cymharu ysgolion â'i gilydd oherwydd y gwahanol gyd-destunau a'r gwahanol gamau gwelliant.

**Dadansoddiad Cychwynnol**

Yn 2018 bu gostyngiad yng nghanran pob un o'r prif ddangosyddion mewn cymhariaeth â 2017, ac yn sylweddol felly mewn Saesneg, Gwyddoniaeth a'r Sgôr Capio 9.

| **ALl GWYNEDD** | **2017** | **2018** | **+ / -** |
|---|---|---|---|
| **TL2+** | 58.1 | 55.0 | -3.1 |
| **TL2** | 70.0 | 69.3 | -0.7 |
| **TL1** | 97.3 | 95.4 | -1.9 |
| **SAESNEG** | 63.5 | 51.4 | -12.1 |
| **CYMRAEG** | 72.1 | 71.2 | -0.9 |
| **MATHEMATEG** | 56.4 | 55.9 | -0.5 |
| **RHIFEDD** | 59.6 | 58.5 | -1.1 |
| **MATHEMATEG (Gorau o'r 2)** | 62.9 | 61.5 | -1.4 |
| **GWYDDONIAETH** | 72.8 | 65.8 | -7.0 |
| **5A*/A** | 20.6 | 18.0 | -2.6 |
| **SGÔR CAPIO 9** | 365.8 | 312.7 | -53.1 |

Perfformiad yn y Gymraeg wedi aros yn gyson uchel, ond mae bwlch pryderus wedi amlygu rhwng perfformiad yn y Gymraeg a Saesneg. Mae perfformiad L2 Saesneg wedi gostwng 12.1%, gyda pherfformiad wedi gostwng yn sylweddol yn yr ysgolion oedd wedi perfformio orau yn 2017.

Mae gostyngiad bychain mewn mathemateg, rhifedd a'r ganran o ddysgwyr enillodd un o'r ddau wedi effeithio'r cynnydd disgwyliedig yn nangosydd TL2+.

Oherwydd newidiadau cymhwyster Gwyddoniaeth ni ellir gwneud cymhariaeth â pherfformiad 2017. Mae perfformiad gwyddoniaeth yn galonogol gyda nifer fawr iawn o ysgolion yn agos iawn i'w targedau.

Mae gwaith coladu pellach ar y sgôr capio 9 er mwyn sicrhau fod y data yn adlewyrchu holl gymwysterau dysgwyr Gwynedd

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Ysgolion cynhwysol a pherfformiad cadarn ar L1. Nodir hefyd bod cydweithio cryf i ddatblygu darpariaeth a chwricwlwm sydd yn eang a chytbwys.
- Perfformiad Cymraeg iaith gyntaf yn gyson uchel.
- Gwelliannau sylweddol mewn ysgolion penodol ar rai dangosyddion.

**Meysydd Gwella**

- Sicrhau bod dadansoddi fforensig yn digwydd i wirio pam bod gostyngiad sylweddol wedi bod yng nghanrannau A*-C Saesneg.
- Gwella perfformiad Mathemateg.
- Mewn ysgolion penodol, parhau i wella ansawdd arweinyddiaeth ac arbenigeddau adrannol yn y pynciau craidd.

## 3. PROFFIL AROLYGIADAU

Mae proffil arolygiadau ar draws y ddau sector yng Ngwynedd yn dda. Yn ystod blwyddyn addysgol 2017-2018, bu i Estyn gynnal arolygiad mewn 19 ysgol [14 cynradd, 4 uwchradd ac 1 arbennig].

Mewn 16 ysgol [%], dyfarnwyd nad oedd angen unrhyw weithredu dilynol, ac yn y dair ysgol arall dyfarnwyd categori dilyniant lleiaf dwys [Adolygiad Estyn].

Nodir isod y proffil barnau ar draws y 5 maes arolygu:

| Proffil Cynradd | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|---|
| MA1 : Safonau | 0% | 93.3% | 6.7% | 0% |
| MA2 : Lles ac agweddau at ddysgu | 26.7% | 73.3% | 0% | 0% |
| MA3 : Addysgu a phrofiadau dysgu | 0% | 86.7% | 13.3% | 0% |
| MA4 : Gofal cymorth ac arweiniad | 6.7% | 86.6% | 6.7% | 0% |
| MA5 : Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 6.7% | 80.0% | 13.3% | 0% |

| Proffil Uwchradd | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|---|
| MA1 : Safonau | 0% | 50.0% | 50.0% | 0% |
| MA2 : Lles ac agweddau at ddysgu | 25.0% | 75.0% | 0% | 0% |
| MA3 : Addysgu a phrofiadau dysgu | 0% | 75.0% | 25.0% | 0% |
| MA4 : Gofal cymorth ac arweiniad | 25.0% | 75.0% | 0% | 0% |
| MA5 : Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 0% | 75.0% | 25.0% | 0% |

## 4. GOSOD TARGEDAU

Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Ddatganiad Ysgrifenedig yn darparu diweddariad ar drefniadau mesur perfformiad ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 4 ar gyfer 2019 ymlaen.

Roedd hwn yn cyflwyno mesurau perfformiad 'interim' newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 o fis Medi 2019 ymlaen (data cohort 2018/19). Bydd y mesurau 'interim' hyn, yn seiliedig ar bwyntiau, yn disodli'r gyfres gyfredol o fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4, gan gynnwys mesurau cynhwysol Lefel 1 a Lefel 2, o 2019 ymlaen.

Yn y cyfnodau allweddol eraill, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi deddfu i:

- roi’r gorau i gyhoeddi data Asesiadau Athrawon a data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar lefel ysgol ac ar lefel ranbarthol o 2018/19 ymlaen; a
- sicrhau mai 2016/17 fydd y flwyddyn olaf y bydd y data hwn yn cael ei gyhoeddi, ar lefel ysgol ac ar lefel ranbarthol, i’r cyhoedd, partneriaid, rhanddeiliaid a gwneuthurwyr polisi.

Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi rhoi ystyriaeth frys i ofynion gosod targedau'r ysgol, gyda golwg ar y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno, ac maent wedi bod yn cysylltu gyda'r sector ar sut y gellid rheoli'r trefniadau hyn yn y tymor byr. Fodd bynnag, nid yw'r weithdrefn ddeddfwriaethol angenrheidiol wedi caniatáu i LlC alinio'r gofynion statudol mor gyflym ag y buasem wedi'i ddymuno.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae disgwyl i ysgolion osod targedau terfynol, targedau wedi'u hadolygu a thargedau dros dro yn erbyn canran y disgyblion sy'n cyflawni mesurau cynhwysol Lefel 1 a Lefel 2, ynghyd â thri targed yn seiliedig ar hunan arfarniadau. Mae angen i'r Awdurdod Lleol dderbyn y

targedau hyn a'u cymeradwyo cyn 31 o Ragfyr fan bellaf. O gofio ein bod yn cael gwared ar fesurau trothwy, rydym yn cydnabod nad yw gofyn i ysgolion osod targedau yn erbyn yr hyn a fydd yn fesurau perfformiad ysgolion darfodedig ymhen fawr o dro yn gwneud synnwyr mwyach.

Mae'r tabl isod yn nodi'r gofynion statudol cyfredol mewn perthynas â gosod targedau ar gyfer y cyfnodau allweddol perthnasol:

| **Cyfnod Allweddol 2 (Disgyblion Blwyddyn 6)** | **Cyfnod Allweddol 3 (Disgyblion Blwyddyn 9)** | **Cyfnod Allweddol 4 (Disgyblion Blwyddyn 11)** |
|---|---|---|
| Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 4** neu uwch mewn Saesneg | Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 5** neu uwch mewn Saesneg | Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni'r Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg |
| Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 4** neu uwch mewn Cymraeg iaith gyntaf | Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 5** neu uwch mewn Cymraeg iaith gyntaf | Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni'r Trothwy Lefel 1 |
| Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 4** neu uwch mewn Mathemateg | Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 5** neu uwch mewn Gwyddoniaeth | |
| Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 4** neu uwch mewn Gwyddoniaeth | Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 5** neu uwch mewn Mathemateg | |
| *Targed Lleol 1* | *Targed Lleol 1* | *Targed Lleol 1* |
| *Targed Lleol 2* | *Targed Lleol 2* | *Targed Lleol 2* |
| *Targed Lleol 3* | *Targed Lleol 3* | *Targed Lleol 3* |
| **Dylai'r Targedau Lleol adlewyrchu blaenoriaethau a nodwyd drwy hunan arfarniadau.* | | |

Mae Llywodraeth Cymru (LlC) yn y broses o gael gwared ar natur benodol y targedau (gan gynnwys mesurau cynhwysol Lefel 1 a Lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4) er mwyn cynyddu'r **nifer o dargedau amhenodol, yn seiliedig ar ddeilliannau hunan arfarniadau**.

Mae'r broses ddeddfwriaethol ofynnol yn golygu y bydd yn amhosibl i LlC weithredu'r newidiadau arfaethedig cyn 31 Rhagfyr 2018, pan fydd disgwyl i dargedau fod wedi'u gosod a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol. O ganlyniad, bydd yna gyfnod lle nad yw gofynion y rheoliadau'n adlewyrchu bwriadau na disgwyliadau LlC mewn perthynas â gosod targedau.

Yn ystod y cyfnod pontio hwn, bydd angen i ysgolion ac Awdurdodau Lleol ystyried pa dargedau fuasai'n fwyaf priodol iddynt eu gosod eleni.

**Y ffordd ymlaen**

Mae hunan arfarnu effeithiol, gosod targedau effeithiol a chynllunio effeithiol ar gyfer gwelliant wrth wraidd y gwaith o sicrhau deilliannau gwell i ddisgyblion.

Er mwyn codi safonau, mae angen i'r proffesiwn arfarnu'n feirniadol ac, os oes angen, newid yr hyn y mae'n ei wneud a sut y mae'n gwneud hynny. Mae'r gwaith o osod targedau effeithiol yn chwarae rôl allweddol yn y broses o godi safonau, ac mae'n rhaid ymgymryd â'r gwaith hwnnw a chynllunio ar gyfer gwelliant ar yr un pryd.

Mae gosod targedau'n caniatáu i ysgolion ganolbwyntio ar yr hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd a'r gwelliannau y maent yn dymuno eu gweld. Mae'n cyfrannu at effeithiolrwydd ysgol pan fydd yn cael ei wneud fel rhan o'r broses o gynllunio ar gyfer gwelliant.

Yr hyn sy'n allweddol yw bod ysgolion yn nodi ac yn gosod **targedau gwella priodol sy'n gysylltiedig â'u blaenoriaethau gwella.** Dylid gosod y rhain fel **targedau lleol** wedi'u pennu yn y tabl uchod ac mae'n bosibl y byddant yn cynnwys amcanion penodol a mesuradwy pan fo hynny'n briodol.

Fodd bynnag, **ni all yr holl dargedau gwella fod yn feintiol.** Pe buasem yn gofyn i ysgolion osod targedau gwella clir, yna buasai'n caniatáu i'r **targed lleol** fel ag y mae i fod yn ansoddol neu'n feintiol.

Ni fuasai ysgolion ond yn rhannu eu targedau gwella allweddol (neu eu Targedau Lleol) gyda'r ALl/Consortiwm. Buasai'r Awdurdodau Lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r targedau gwella a osodir gan yr ysgolion. Staff gwella ysgolion sy'n sicrhau ansawdd y broses hon ar ran yr ALl fel arfer. Ni fyddai Targedau Lleol yn cael eu agregu ar lefel Awdurdod Lleol na rhanbarth.

Yn y cyfnod interim, bydd yn rhaid i ysgolion adrodd yn erbyn y targedau statudol penodol a ddisgrifiwyd yn y tabl uchod hyd nes y gwaredir hwy gan ddeddfwriaeth.

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| DYDDIAD | 20fed Medi 2018 |
| TEITL | Briff ac Aelodaeth Ymchwiliad Craffu i faes "effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg" |
| PWRPAS | Derbyn briff yr ymchwiliad ac adnabod aelodau |
| AWDUR | Cynghorydd Beth Lawton,<br>Cadeirydd |
| SWYDDOG PERTHNASOL | Sion Owen<br>Swyddog Cefnogi Busnes y Cyngor |

1. Yn ei gyfarfod ar y 23ain o Ionawr 2018 penderfynodd y Pwyllgor gefnogi'r egwyddor o sefydlu ymchwiliad craffu er mwyn edrych ar effaith adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg.

2. Mae'r briff drafft a gyflwynwyd bellach wedi ei ddatblygu mewn ymgynghoriad gyda'r adran Addysg. Fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor yn atodiad 1 i'w fabwysiadu er mwyn i'r ymchwiliad gael dechrau ar ei waith.

3. Y prif gwestiynau fydd yr ymchwiliad yn anelu i'w hateb yw:

   - A yw'r buddsoddiad ariannol wedi arwain at wella'r ansawdd?
   - A oes ymarfer da neu wersi i'w dysgu wrth i'r rhaglen ddatblygol barhau?

4. Bwriedir defnyddio astudiaethau achos er mwyn casglu tystiolaeth, gan ddewis craffu ar ddatblygiadau sydd yn dangos nodweddion cyffredin. Bydd yr ymchwiliad hefyd yn canolbwyntio ar fesur yr effaith ar ansawdd yr addysg.

5. Yr ysgolion a fwriedir eu hastudio yw:
   - Ysgol Bro Llifon
   - Ysgol Craig y Deryn/Tywyn
   - Ysgol Gglancegin
   - Ysgol yr Hendre

6. Yng nghyfarfod y pwyllgor ar Ionawr 23ain, adnabuwyd y Cynghorwyr Steve Collings, Cai Larsen, Paul Rowlinson a Beth Lawton fel aelodau'r ymchwiliad. Mae cyfle arall yma i unrhyw aelod sy'n dymuno gwneud hynny i fod yn aelod o'r ymchwiliad.

7. Argymhelliad - Gofynnir i'r Pwyllgor

   a. Fabwysiadu'r briff sydd wedi ei atodi
   b. Cadarnhau'r aelodau fydd yn rhan o'r ymchwiliad

**YMCHWILIAD "EFFAITH DATBLYGIADAU ADEILADAU NEWYDD AR GYFER YSGOLION AR ANSAWDD ADDYSG"**

BRÎFF DRAFFT – 20 Medi 2018

(Fersiwn 1)

<table>
<tr><td>A</td><td>Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried fel eitem craffu?<br><br>Mae nifer o aelodau wedi gofyn a ydym yn glir os oes effaith gadarnhaol ar addysg disgyblion wedi dod yn sgil y datblygiadau diweddar o ran strwythuro ysgolion y sir - boed yn ddatblygiadau o adeiladau newydd i ysgolion, ac/neu yn datblygu ysgolion newydd.<br><br>Mae eu cwestiynau yn canolbwyntio ar effaith y ddarpariaeth newydd ar ansawdd yr addysg a phrofiad disgyblion, gan holi<br>- a yw'r buddsoddiad ariannol wedi arwain at wella'r ansawdd<br>- a oes ymarfer da neu wersi i'w dysgu wrth i'r rhaglen ddatblygol barhau.<br><br>Gyda'r holl waith datblygol sydd wedi bod yn digwydd hyd yma, mae'n amserol i edrych ar beth yw effaith (os o gwbl) yr adeiladau newydd yng Ngwynedd.<br><br>Dylid cymryd y cyfle i adnabod unrhyw ymarferion da ac unrhyw wersi/addasiadau ar gyfer y datblygiadau i'r dyfodol.<br><br>Bydd yr ymchwiliad i'r maes yn edrych ar effaith datblygiadau / adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar yr elfennau a ganlyn, sef<br>➢ Ansawdd yr addysg<br>➢ Canlyniadau addysgol<br>➢ Profiad y defnyddwyryn yr adeiladau newydd<br>➢ Gwerth am arian</td></tr>
<tr><td>B</td><td>Nod yr Ymchwiliad<br><br>Y prif gwestiwn i'w gyfarch fydd<br><br>'Beth yw effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg disgyblion, ac a oes gwersi i'w dysgu i'r dyfodol?"<br><br>Bwriedir gwneud hyn trwy ofyn y cwestiynau canlynol:<br>- Beth yw nodweddion ansawdd addysg dda?<br>- Ydi canlyniadau addysgol yr ysgolion dan sylw yn well/gwaeth/sefydlog wedi agor yr adeiladau newydd?<br>- Sut mae profiad y disgyblion wedi newid o'r hen adeilad i'r adeilad newydd<br>- Sut mae adeilad yn effeithio ar addysg?<br>- Beth oedd meini prawf llwyddiant y datblygiadau? A lwyddwyd i'w cyflawni?<br>- Beth oedd cyflwr cyffredinol yr adeiladau?<br>- Beth oedd yn newid o'r hen ysgol i'r ysgol newydd?</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td>- O safbwynt y staff dysgu, y llywodraethwyr a GwE, sut y bu i'r adeilad wella ansawdd yr addysg?<br>- Ydi'r datblygiadau yn cynnig gwerth am arian?<br>- A oes gwersi i'w dysgu i'r dyfodol?</td></tr>
<tr><td>C</td><td>Cefndir<br><br>Mae cryn fuddsoddiad wedi bod ar ddatblygu adeiladau addysgol yng Ngwynedd yn ddiweddar. Ymysg y datblygiadau mae:<br><br>• Ysgol yr Hendre, Caernarfon.<br>• Ysgol Craig y Deryn<br>• Buddsoddiad ar welliannau ac adnewyddiadau yn Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn yn 2013.<br>• Ysgol Bro Llifon<br>• Ysgol Hafod Lon, Penrhyndeudraeth.<br>• Ysgol Bro Idris, yn Nolgellau ar 6 safle.<br><br>Mae'r rhaglen yn parhau gyda datblygiadau pellach eisoes ar y gweill yn ardaloedd Y Bala a Bangor.</td></tr>
<tr><td>CH</td><td>Arfer Da a Gwersi i'w Dysgu<br><br>- Defnyddio dull astudiaeth achos, felly bwriedir adnabod y wybodaeth a thystiolaeth angenrheidiol (fel a nodir isod yn adran D) a'i ddadansoddi yn unol a'r cyd-destun strategol a chyd-destun y datblygiadau unigol.</td></tr>
<tr><td>D</td><td>Casglu Tystiolaeth<br><br>Bwriedir ateb y cwestiynnau trwy ddefnyddio arddull astudiaeth achos ar gyfer 3 neu 4 datblygiad. Trwy gyfuno datblygiadau diweddar a rhai llai diweddar, y bwriad yw:<br>• Casglu data er mwyn mesur effaith yr adeilad ar brofiad y disgyblion o'r datblygiadau diweddar, gan fod y newid yn fyw yn y cof<br>• Mesur yr effaith ar ansawdd yr addysg o'r datblygiadau llai diweddar, gan fod amser wedi bod er mwyn i ddata meintiol gael ei gynhyrchu.<br><br>Bwriedir hefyd:<br>- Ymchwilio i weld beth oedd meini prawf llwyddiant y cynlluniau ail-drefnu/adeiladu ysgolion</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | - Dadansoddi sefyllfa'r ysgolion cyn y datblygiad (defnyddio categori/estyn/gwe/canlyniadau)<br>- Cywain data ansoddol gan Arweinwyr yr ysgolion, staff dysgu, y llywodraethwyr a GwE.<br>- Sut mae mesur ansawdd addysg – beth yw nodweddion addysg o ansawdd dda?<br>- Ydi canlyniadau wedi gwella yn sgil y newid?<br><br>Bwriedir edrych ar ysgolion Bro Llifon, Craig y Deryn, Glancegin a Hendre. |
| DD | **Dadansoddiad**<br><br>- Ystyried a yw'r datblygiadau wedi cyflawni meini prawf llwyddiant eu cynllun busnes, amcanion y strategaeth moderneiddio addysg, ac amcanion cynllun ysgolion y G21ain<br>- O ran gwerth am arian, mae angen cadw mewn cof mai gwella ansawdd yr addysg sydd yn gyrru'r rhaglen moderneiddio. Fodd bynnag mae'n gwestiwn gwerth ei ofyn yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. |
| E | **Llunio'r Adroddiad**<br><br>- Nodi a thystiolaethu'r prif ganfyddiadau<br>- Nodi argymhellion<br>- Trafod a chytuno'r adroddiad drafft gyda'r budd-ddeiliaid perthnasol<br>- Cyflwyno'r adroddiad terfynol drafft i'r Pwyllgor<br>- Cyhoeddi'r adroddiad |
| F | **Cynllun Gweithredu**<br><br>- Yn ddibynnol ar ganlyniadau'r ymchwiliad |
| FF | **Tracio Cynnydd**<br><br>- Yn ddibynnol ar ganlyniadau'r ymchwiliad. |

| G | **AMSERLEN**<br><br>Gweler y prif gamau isod. |
|---|---|

| | Beth | Arwain | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyfarfod Cychwynnol | Sion Owen | 9/10/18 |
| 2 | Trafod data ystadegol a pherfformiad | Sion Owen | I'w drefnu (hydref 2018) |
| 4 | Ymweliad ysgol x4 | Sion Owen | Diwedd Hydref-Tachwedd 2018 |
| 5 | GwE – canfod eu barn ar ansawdd yr addysg yn yr ysgolion dan sylw | Sion Owen | Tachwedd – Rhagfyr 2018 |
| 5 | Trafod Canfyddiadau ac agymhellion | | Rhagfyr - Ionawr |
| 6 | Llunio Adroddiad Drafft | Sion Owen | Ionawr 2019 |
| 7 | Llunio adroddiad terfynol | Sion Owen | Chwefror 2019 |
| 8 | Cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor | Sion Owen | Mawrth 2019 |